

Arolwg Newyddion Ofcom Etholiad 7 Mai 2026

15 Medi 2026



Cefndir ac amcanion ymchwil

Cynhaliwyd etholiadau yn Cymru, Lloegr, a'r Alban ar 7 Mai 2026 o fewn ecosystem newyddion sy'n esblygu'n barhaus.

Ofcom yw rheoleiddiwr cyfathrebiadau'r DU ac mae'n goruchwyllo darllediadau etholiadol ar wasanaethau teledu a radio trwyddedig i sicrhau eu bod yn cydymffurfio â'r Cod Darlledu. Mae hyn yn gofyn i ddarllediadau etholiadol fod yn deg ac yn ddiduedd a bod newyddion yn briodol gywir.

Cynlluniwyd yr ymchwil i ddeall sut roedd pobl ym Mhrydain yn cael gafael ar newyddion a gwybodaeth am yr etholiadau; y ffynonellau roeddent yn eu defnyddio ac yn ymddiried ynddynt; eu hymwybyddiaeth o gynnwys a wedi'i gynhyrchu gan AI neu gynnwys a allai fod yn gamarweiniol a faint ohono roeddent yn ei weld; a'u diddordeb ehangach mewn materion cyfoes, a'u hymdeimlad o fod yn cael gwybodaeth amdanynt.

Amcanion allweddol:

- Nodi a yw pobl yn dod ar draws cynnwys sy'n gysylltiedig ag etholiad, ac os ydynt, pa fath o gynnwys ydyw.
- Deall rôl cyfryngau cymdeithasol, allfeydd lleol, darlledwyr cenedlaethol a ffynonellau amgen.
- Archwilio canfyddiad pobl o'r newyddion etholiad maen nhw'n ei weld.


Methodoleg

Cynhaliodd Savanta arolwg ar-lein ar ran Ofcom yn syth ar ôl etholiadau Mai 2026 yng Nghymru, Lloegr a'r Alban.

Cafodd 6,190 o oedolion eu holi ar-lein. Cynhaliwyd gwaith maes rhwng 9 a 24 Mai 2026, yn syth ar ôl etholiadau cynghorau lleol / etholiad Maer Bwrdeistref Llundain yn Lloegr, etholiad Senedd Cymru ac etholiad Senedd yr Alban, a gynhaliwyd ar 7 Mai 2026.

Gosodwyd cwotâu yn ôl oedran, rhywedd (cydgysylltiedig), rhanbarth, gradd gymdeithasol ac ethnigrwydd er mwyn sicrhau samplau cynrychioliadol cenedlaethol ym mhob gwlad. Cafodd samplau eu pwysoli yn ôl y cwotâu i sicrhau cynrychiolaeth. Ar gyfer Lloegr, cafodd ymatebwyr eu sgrinio yn ôl rhanbarth ac yna awdurdod lleol i benderfynu ar gymhwysedd etholiadol. Dylid bod yn ofalus wrth adolygu'r sampl gyfan gan ei fod yn adlewyrchu ardaloedd lle roedd etholiadau yn cael eu cynnal, yn hytrach na'r DU / Prydain gyfan.

Wrth gymharu ymatebion gwahanol grwpiau, mae'r data wedi'i brofi ar gyfng hyder o 95%. Mae saethau i fyny neu i lawr yn dangos lle mae ymatebion ar gyfer y grŵp hwnnw yn sylweddol wahanol i gyfanswm y sampl.



Nodyn ar derminoleg

Gofynnwyd cwestiynau i'r ymatebwyr am yr etholiad yn seiliedig ar eu lleoliad. Trwy gydol y cyflwyniad rydym yn cyfeirio at yr etholiad i gwmpasu'r holl etholiadau a gynhaliwyd ar Fai 7fed 2026.



Gofynnwyd cwestiynau ar
Etholiadau Senedd yr Alban



Gofynnwyd cwestiynau am etholiad y cyngor
lleol a / neu etholiadau Maer Bwrdeistref
Llundain



Gofynnwyd iddynt am
etholiadau Senedd Cymru

Crynodeb gweithredol (1)

1

Mae pobl yn defnyddio **cymysgedd o wahanol gyfryngau** i wyllo, gwrandio neu ddarllen y newyddion, a newyddion teledu yw'r cyfrwng a ddefnyddir fwyaf (ar gyfer pob oedran) o'r rhestr a ddarparwyd i'r ymatebwyr. Sianel teledu BBC News yw'r ffynhonnell a ddefnyddir fwyaf. Mae'r mwyafrif o ymatebwyr o'r Alban a Chymru hefyd yn defnyddio cynnwys newyddion penodol i genedl.

2

Roedd diddordeb mewn newyddion etholiad yn debyg i ddiddordeb mewn newyddion yn gyffredinol, ac nid oedd ymatebwyr yn teimlo'n sylweddol fwy gwybodus yn ystod cyfnod yr etholiad. Ymhlith pobl â llai o ddiddordeb mewn newyddion etholiadol, y rhesymau mwyaf cyffredin oedd cred na fyddai'r etholiad yn arwain at newid ystyrlon a diffyg ymddiriedaeth mewn gwleidyddion.

3

Roedd agweddau tuag at newyddion etholiad yn gymysg. Roedd y mwyafrif yn cytuno ei bod yn bwysig ymgysylltu â sawl ffynhonnell am yr etholiad, ond roedd canfyddiadau tuag at gywirdeb newyddion etholiad yn gymysg (fodd bynnag, pan ofynnwyd iddynt am ffynonellau newyddion etholiad unigol, roedd ymddiriedaeth mewn cywirdeb yn uwch).

Crynodeb gweithredol(2)

4

Teledu oedd y platfform cyfryngau a ddefnyddiwyd fwyaf ar gyfer newyddion etholiadol. Ac eithrio deunyddiau ymgyrchu etholiad-benodol, roedd defnydd o newyddion etholiadol yn adlewyrchu arferion newyddion cyffredinol pobl. Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr wedi cael mynediad at newyddion etholiadol mewn mwy nag un ffordd.


5

Roedd canfyddiadau yn amrywio ar draws y gwahanol ffyrdd o gael mynediad at newyddion am yr etholiad. Roedd defnyddwyr yn fwy tebygol o feddwl bod y dulliau a ddefnyddiwyd ganddynt i gyrchu newyddion yn gywir at ei gilydd, ac roedd y mwyafrif yn eu gweld yn ddibynadwy yn gyffredinol. Ar draws pob un o'r pum nodwedd a fesurwyd, Channel 4 oedd y ffynhonnell unigol a gafodd y sgôr uchaf ar draws yr holl nodweddion.


6

Dywedodd dwy ran o dair o'r cyfranogwyr a oedd yn ymwybodol o'r etholiad eu bod **wedi dod ar draws cynnwys etholiadal a oedd, yn eu barn nhw, yn gamarweiniol.** O'r rhain, roedd tua thraean o'r farn bod y cynnwys camarweiniol wedi'i gynhyrchu gan AI, tra bod cyfran debyg yn ansicr. Mae hyn yn adlewyrchu lefelau cymysg o hyder wrth adnabod cynnwys a gynhyrchwyd gan AI, gyda tua thraean yn hyderus a chyfran debyg yn ddi-hyder. Ymhlith y rhai a ddaeth ar draws cynnwys etholiadol a gynhyrchwyd gan AI, dywedodd tua hanner eu bod wedi ei anwybyddu neu wedi sgrolio heibio iddo.

Diddordeb a barn am newyddion etholiad




Roedd diddordeb mewn newyddion yn ystod cyfnod yr etholiad yn debyg iawn i ddiddordeb mewn newyddion yn gyffredinol



C7. Faint o ddiddordeb, os o gwbl, sydd gennych mewn newyddion ar faterion cyfoes, gyda 0 yn golygu dim diddordeb, a 5 yn golygu llawer o ddiddordeb? Yn gyffredinol / Yn ystod y cyfnod etholiadol diweddar hwn. Sylfaen: Pob ymatebwr (6,190), Ynymwybodol o'r etholiadau (5,550)

Roedd pobl yn teimlo'n debyg am newyddion yn gyffredinol a'r newyddion etholiadol penodol


Pa mor wybodus roedd pobl yn teimlo am y newyddion



C8. Pa mor wybodus, os o gwbl, ydych chi'n teimlo am newyddion a materion cyfoes, gyda 0 yn golygu ddim yn wybodus, a 5 yn golygu wybodus iawn? Yn gyffredinol / Yn ystod y cyfnod etholiadol diweddar hwn. Sylfaen: Pob ymatebydd (6,190), Pawb yn ymwybodol o'r etholiadau (5,550).

Mae'r rhan fwyaf o bobl sy'n ymwybodol o'r etholiad yn tueddu i ffafrio cynnwys ffurf hirach


Pa ddatganiad sy'n dod agosaf at eich barn...



C10. Ar gyfer pob pâr o ddatganiadau, llusgwch y llithrydd i nodi ble mae eich barn eich hun a chliciwch i gadarnhau eich dewis cyn symud i'r pâr nesaf o ddatganiadau.
Sylfaen: Pawb sy'n ymwybodol o'r etholiadau (5,550)


Roedd tua hanner yn teimlo ei bod yn bwysig ymgysylltu â gwahanol ffynonellau, ond roedd ymddiriedaeth mewn newyddion etholiadol yn gymysg ac ychydig a ddywedodd eu bod wedi newid eu meddwl ar bynciau etholiad

Pa ddatganiad sy'n dod agosaf at eich barn...




C10. Ar gyfer pob pâr o ddatganiadau, llusgwch y llithrydd i nodi ble mae eich barn eich hun a chliciwch i gadarnhau eich dewis cyn symud i'r pâr nesaf o ddatganiadau. Sylfaen: Pawb sy'n ymwybodol o'r etholiadau (5,550).

Defnydd



Mae'r patrwm o gael mynediad at newyddion am yr etholiadau yn adlewyrchu arferion newyddion cyffredinol i raddau helaeth


Defnydd o newyddion yn ôl cyfrwng



C1. Hoffem i chi feddwl am ble rydych chi'n cael eich newyddion a'ch gwybodaeth. Yn gyffredinol, pa un o'r ffynonellau canlynol, os o gwbl, ydych chi'n tueddu i'w defnyddio ar gyfer newyddion a materion cyfoes? / C3A. Gan feddwl am yr wythnosau cyn yr etholiadau, trwy ba un o'r ffynonellau canlynol, os o gwbl, a welsoch newyddion a gwybodaeth am yr etholiad? Sylfaen: Pob ymatebwr (6,190) / Pawb sy'n ymwybodol o'r etholiad (5,550).


Y mwyafrif o bobl yn defnyddio rhwng dau a phum ffynhonnell wahanol i gael newyddion am yr etholiad, tra bod tua chwarter yn dibynnu ar un ffynhonnell yn unig

% y bobl sy'n defnyddio pob platfform ar gyfer newyddion etholiadol, yn ôl cenedl



C3A. Wrth feddwl am yr wythnosau cyn yr etholiadau, trwy ba rai o'r ffynonellau canlynol, os o gwbl, a welsoch chi newyddion a gwybodaeth am yr etholiad?
Sylfaen: Pawb a oedd yn ymwybodol o'r etholiad (5,550), Lloegr (3,566), Yr Alban (1,002), Cymru (977).

Prif raglenni newyddion teledu'r BBC, Sky News a phrif raglenni newyddion ITV oedd y 3 prif ffynhonnell cyfryngau o newyddion a gwybodaeth am yr etholiad.



C3A. Wrth feddwl am yr wythnosau cyn yr etholiadau, trwy ba rai o'r ffynonellau canlynol, os o gwbl, a welsoch newyddion a gwybodaeth am yr etholiad?
Sylfaen: Pawb sy'n ymwybodol o'r etholiad (5,550).

Roedd y mwyafrif yn cael newyddion etholiadol mewn dwy – bum ffordd wahanol, gyda thua chwarter yn gweld dim ond un.

Nifer y ffynonellau newyddion etholiad

27%

Yn dweud eu bod wedi gweld / defnyddio un ffynhonnell o newyddion etholiadol

56%

Yn dweud eu bod wedi gweld / defnyddio rhwng dau a phump


11%

Yn dweud eu bod wedi gweld / defnyddio rhwng chwech a deg



2%

Yn dweud eu bod wedi gweld / defnyddio 11 neu fwy o ffynonellau newyddion

Cyfran sylweddol uwch yn y profil na chyfanswm y sampl




Dim gwahaniaethau sylweddol uwch mewn proffil



C3A. Wrth feddwl am yr wythnosau cyn yr etholiadau, trwy ba rai o'r ffynonellau canlynol, os o gwbl, welsoch chi newyddion a gwybodaeth am yr etholiad? Sylfaen: Pawb sy'n ymwybodol o'r etholiad (5,550), defnyddio un ffynhonnell o newyddion etholiadol (1,485), defnyddio rhwng dau a phump (3,106), defnyddio rhwng chwech a deg (635), defnyddio un ar ddeg neu fwy (131).

Mae'r rhai sy'n gweld newyddion etholiadol ar gyfryngau cymdeithasol yn tueddu i weld hysbysebion neu newyddion o ffynonellau newyddion traddodiadol, ond mae cyfran sylweddol yn gweld barn a ffeithiau gan bobl nad ydyn nhw'n eu hadnabod

Yr hyn maen nhw wedi'i weld ar gyfryngau cymdeithasol, llwyfannau fideo ar-lein neu fforymau ar-lein




Mae 53% yn dweud eu bod wedi gweld barn neu ffeithiau wedi'u postio gan bobl nad ydyn nhw'n eu hadnabod

Mae dynion yn fwy tebygol o ddweud eu bod wedi gweld barn gan bobl nad ydyn nhw'n eu hadnabod

C4. Yn y cwestiwn blaenorol dywedasoch eich bod wedi defnyddio cyfryngau cymdeithasol, fideo ar-lein neu fforymau ar-lein ar gyfer newyddion a gwybodaeth am yr etholiad. Yn ystod yr wythnosau diwethaf, pa un o'r canlynol, os o gwbl, ydych chi wedi'i weld ar y llwyfannau hyn? Sylfaen: Pawb a oedd wedi gweld newyddion a gwybodaeth ar gyfryngau cymdeithasol yn ystod yr etholiad (812).

Ar draws pob ffynhonnell o newyddion etholiadol, roedd defnyddwyr yn fwy tebygol o ddweud bod y ffynhonnell yn gywir ac yn ddibynadwy. Rhannwyd barn ar ddiueddrwydd a dyfnder barn ar draws y ffynonellau. Roedd defnyddwyr yn llai sicr am y ffynonellau a oedd yn gwneud iddynt feddwl ddwywaith

Gan ddefnyddio'r raddfa ganlynol o 1 i 5, lle mae 1 yn golygu DIM O GWBL a 5 yn I'R RADDAU MWYAF HELAETH, i ba raddau rydych chi'n meddwl bod y ffynonellau yn...




C5. Gan ddefnyddio'r raddfa ganlynol o 1 i 5, lle mae 1 yn DDIM O GWBL a 5 yn I RADDAU MWYAF HELAETH, i ba raddau rydych chi'n meddwl bod y datganiadau hyn yn berthnasol i'r ffynonellau canlynol ar gyfer newyddion am yr etholiad? Sylfaen: Pawb a ddefnyddiodd bob ffynhonnell newyddion etholiad.


Roedd defnyddwyr radio'r BBC a Channel 4 yn fwy tebygol o raddio eu sylw etholiad fel un diduedd

Gan ddefnyddio'r raddfa ganlynol o 1 i 5, lle mae 1 yn golygu DIM O GWBL a 5 yn golygu I RADDAU HELAETH IAWN, i ba raddau rydych chi'n meddwl bod y canlynol yn ddiduedd

SGOR UCHAF




SGOR ISAF



Isel (1-2) Ddim yn gwybod Uchel (4-5)


C5. Gan ddefnyddio graddfa o 1 i 5, lle mae 1 yn DIM O GWBL a 5 yn YN HOLLOL, i ba raddau ydych chi'n credu bod pob ffynhonnell yn ddiduedd? Sylfaen: Pawb a ddefnyddiodd bob ffynhonnell newyddion etholiad (rhwng 104–3,368). Dim ond ffynonellau â sylfaen uwchlaw 100 a ddangosir. Mae cyfryngau cymdeithasol yn cynnwys plattfformau rhannu fideos a fforymau ar-lein.

**AI a gwybodaeth
gamarweiniol am etholiadau**



Mae hyder wrth adnabod cynnwys wedi'i gynhyrchu gan AI yn amrywio'n sylweddol yn ôl oedran, gydag oedolion iau yn llawer mwy hyderus nag oedolion hŷn

Ar raddfa o 1-10, hyder wrth nodi sain, delweddau, fideos neu destun ar-lein wedi'i gynhyrchu gan AI



Ychydig iawn a ddywedodd eu bod yn teimlo'n hyderus iawn (7%). Dywedodd tua un o bob deg (12%) nad oeddent yn teimlo'n hyderus o gwbl.


C11. Ar raddfa o 1 i 10, pa mor hyderus, os o gwbl, ydych chi wrth adnabod sain, delweddau, fideos neu destun wedi'i gynhyrchu gan AI pe baech chi'n ei weld ar-lein?
Sylfaen: Pob ymatebwr (6,190), 16-35 (1,763), 35-54 (2,041), 55+ (2,386), Dynion (2,985), Menywod (3,173), ABC1 (3,513,,), C2DE (2,677).

↑ Gwahaniaethau sylweddol
↓ rhwng datganiadau a nodir gan saethau

Dywedodd y mwyafrif eu bod wedi gweld rhywfaint o gynnwys etholiadol camarweiniol, gyda thua chwarter yn dod ar ei draws yn aml yn ystod yr wythnosau diwethaf

Pa mor aml mae rhywun yn gweld cynnwys etholiad camarweiniol

60%
wedi adrodd eu bod wedi gweld cynnwys etholiad camarweiniol



33%

Gwahaniaethau demograffig
Roedd pobl 55+ oed yn fwy tebygol o ddweud nad oeddent byth wedi gweld cynnwys etholiadol camarweiniol / neu wedi'i weld llai nag unwaith yr wythnos (40%).

26%


Gwahaniaethau demograffig
Roedd pobl 16-34 oed yn fwy tebygol o ddweud eu bod yn gweld cynnwys etholiadol camarweiniol yn aml (38%).
Pobl yn Llundain (30%).
Pobl yng ngradd gymdeithasol AB (30%).

Gwahaniaethau demograffig
Roedd pobl 55+ oed yn fwy tebygol o ddweud nad oeddent yn gwybod a oeddent wedi gweld cynnwys etholiadol camarweiniol (32%).
Pobl yng ngradd gymdeithasol DE (28%).

C12. Yn ystod yr wythnosau diwethaf, pa mor aml ydych chi wedi dod ar draws cynnwys am yr etholiad rydych chi o'r farn ei fod yn gamarweiniol neu wedi'i gynllunio i gamhysbysu? Sylfaen: Pawb sy'n ymwybodol o'r etholiadau (5,550)


Mae tua thraean yn dweud bod y cynnwys etholiadol camarweiniol a welsant wedi'i gynhyrchu gan AI. Fodd bynnag, nid oedd traean arall yn siŵr a oedd y cynnwys a welsant wedi'i gynhyrchu gan AI

Cynnwys etholiad camarweiniol wedi'i gynhyrchu gan AI



C12a. Dywedasoch eich bod wedi gweld cynnwys am yr etholiad yn ystod yr wythnosau diwethaf yr ydych o’r farn ei fod wedi’i gynllunio i gamarwain neu gamhysbysu. A oedd y cynnwys hwn wedi’i gynhyrchu neu ei drin fel arall gydag AI? Sylfaen: Pawb sy’n dweud eu bod wedi gweld cynnwys etholiadol camarweiniol (3,320), 16-35 (1,210), 35-54 (1,180), 55+ (930), Dynion (1,751), Menywod (1,558), ABC1 (2,003), C2DE (1,317).

Yr ymateb mwyaf cyffredin i ddod ar draws cynnwys etholiadol wedi'i gynhyrchu gan AI a allai fod yn gamarweiniol oedd ei anwybyddu



C13. Pan ddaethoch ar draws cynnwys etholiadol camarweiniol roeddech chi o'r farn y gallai fod wedi'i gynhyrchu gan AI, pa un o'r camau canlynol wnaethoch chi eu cymryd, os o gwbl? Sylfaen: Pawb a ddywedodd eu bod wedi gweld cynnwys etholiadol camarweiniol wedi'i gynhyrchu gan AI (1,120).